

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Gorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Nia Roberts Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion Cyfarwyddiaeth Addysg
Adran:	Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Huw Owen Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Gweinidog Addysg
Dyddiad Dechrau:	7 Medi 2020

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 7. Casgliad	13
Adran 8. Datganiad	19
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	20

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylai roi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") dynnu enw cofrestrai oddi ar gofrestr y gweithlu addysg ("y Gofrestr") dros dro fel mesur interim.
2. Dim ond pe bai'r Cyngor o'r farn ei bod yn angenrheidiol er budd y cyhoedd y câi'r penderfyniad i atal unigolyn dros dro ei wneud, a byddai hynny'n digwydd tra'n aros i ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu gael eu cynnal.
3. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cynigion hyn, a fydd ar gael ar ei gwefan ar ôl i'r ymgynghoriad gael ei lansio. Ar hyn o bryd, disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Medi 2020.
4. Bydd angen is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi'r cynigion hyn ar waith. Bydd Gorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) ("y Gorchymyn arfaethedig"), a fyddai'n rhoi'r cynigion hyn ar waith, ar gael pan fydd yr ymgynghoriad ar ein cynigion yn cael ei lansio ym mis Medi 2020, ynghyd â nodyn esboniadol drafft a'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn drafft.

Cefndir

5. Parhawyd bodolaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("GTCW") gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") ond cafodd ei ailenwi'n Cyngor y Gweithlu Addysg. Daeth y newid hwnnw i rym ar 1 Ebrill 2015.
6. Y Cyngor yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer y canlynol:
 - athrawon ysgol;
 - gweithwyr cymorth dysgu ysgolion;
 - athrawon addysg bellach (darlithwyr);
 - gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach;
 - ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith;
 - gweithwyr ieuentid cymwysedig;
 - gweithwyr cymorth ieuentid cymwysedig.

Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor tua 80,000 o gofrestreion.

7. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cofrestr ("y Gofrestr") o dan adran 9 o Ddeddf 2014 a chaniatáu i'r cyhoedd weld y Gofrestr honno o dan reoliad 14 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015. Mae'r Gofrestr yn rhestru pawb sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor ar yr adeg honno yn y categorïau a restrwyd uchod ("Personau Cofrestredig"), ac mae ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor.
8. O dan adran 26 o Ddeddf 2014 mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal y cyfryw ymchwiliadau ag sy'n briodol, yn ei farn ef, pan honnir bod Person Cofrestredig yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu os honnir bod y Person wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol.
9. Yn dilyn ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu a gynhaliwyd ganddo yn unol â'r darpariaethau disgyblu yn adrannau 26 i 32 o Ddeddf 2014 a Rhan 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, gall y Cyngor osod Gorchymyn disgyblu ar Person Cofrestredig.
10. Mae Gorchymyn disgyblu yn un o'r canlynol:
 - cerydd,
 - gorchymyn cofrestru amodol,
 - gorchymyn atal dros dro, neu
 - gorchymyn gwahardd.

Yr angen am bwerau atal dros dro interim

11. Nid yw pwerau'r Cyngor o dan Ddeddf 2014 yn caniatáu iddo osod gorchymyn atal dros dro interim ("ISO") er mwyn atal Person Cofrestredig dros dro tra'n aros i ymchwiliad neu wrandawriad disgyblu gael ei gynnal. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw natur yr honiadau yn erbyn y Person Cofrestredig yn gredadwy ac yn ddifrifol, ac yn codi pryderon sylweddol o ran diogelu.
12. Rhaid i enw'r Person Cofrestredig aros ar y Gofrestr drwy gydol y cyfnod cyn i'r broses ymchwilio a disgyblu gael ei chwblhau gan y Cyngor. Mae'r Gofrestr yn agored i'r cyhoedd a gellir ei gweld ar-lein. Golyga hyn, tra bydd yr heddlu yn ymchwilio i honiad difrifol credadwy yn erbyn Person Cofrestredig sy'n codi

pryderon sylweddol ynghylch diogelu, bydd yr unigolyn hwnnw yn aros ar y Gofrestr.

13. Mae'r Cyngor o'r farn bod hyn yn fethiant difrifol am ei bod yn galluogi unigolyn i barhau i gael statws "Person Cofrestredig" am fisoedd lawer o bosibl, ni waeth pa mor ddifrifol a chredadwy yw'r honiadau yn ei erbyn. Gall hyn beri risg sylweddol o ran diogelu. Er enghraifft, pe bai rhiant yn chwilio am diwtor preifat ar gyfer ei blentyn ac yn chwilio'r Gofrestr, mae'n debygol y byddai'n cael sicrwydd bod unigolyn yn addas i fod yn diwtor preifat i'w blentyn am fod ganddo statws Person Cofrestredig.
14. Pe bai gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, gallai dynnu enw'r unigolyn hwnnw oddi ar y Gofrestr dros dro tra'n aros am ganlyniad ymchwiliadau gan yr heddlu a'i broses ymchwilio a disgyblu ei hun. Byddai unrhyw un sy'n chwilio'r Gofrestr am gyfnod y gorchymyn atal dros dro interim yn dysgu nad oes gan yr unigolyn statws Person Cofrestredig.

Trosolwg o'r cynigion

15. Yn hytrach na bod yn "orchymyn disgyblu", byddai gorchymyn atal dros dro interim yn gam dros dro a gymerid tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad a gwrandawriad disgyblu. Gallai gorchymyn atal dros dro interim gael ei osod am gyfnod o hyd at 18 mis.
16. Byddai gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei roi o ran gallu Person Cofrestredig i ymarfer dim ond pan fydd y Cyngor o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd.
17. Byddai hawl i adolygu gorchymyn atal dros dro interim ar gais y person y mae'n ymwneud ag ef ("y cyn-Berson Cofrestredig") o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl i'r Gorchymyn gael ei osod a bob chwe mis wedi hynny.
18. At hynny, byddai'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r gorchymyn atal dros dro interim yn rheolaidd fel y bo'n briodol, yn ei farn ef.
19. Byddai'r Cyngor yn gallu diddymu gorchymyn atal dros dro interim yn dilyn adolygiad y gofynnwyd amdano gan gyn-Berson Cofrestredig, neu unrhyw bryd cyn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid gosod gorchymyn disgyblu ai peidio, os na fydd o'r farn mwyach ei bod er budd y cyhoedd os bydd y gorchymyn atal dros dro interim yn parhau mewn grym.

20. Bydd gorchymyn atal dros dro interim yn peidio â bod yn weithredol hefyd pan ddaw'r cyfnod y'i gosodwyd ar ei gyfer i ben. Serch hyn, gall y Cyngor osod gorchymynion atal dros dro interim dilynol.

Effaith y cynigion

Lliniaru'r risg o ran diogelu

21. Lle bo'r Cyngor o'r farn ei bod er budd y cyhoedd ac yn gosod gorchymyn atal dros dro interim ar Berson Cofrestredig, ni fydd yr unigolyn hwnnw yn gallu defnyddio statws "Person Cofrestredig" tra bydd y gorchymyn atal dros dro interim hwnnw ar waith. Y rheswm dros hyn yw, pryd bynnag y gosodir gorchymyn atal dros dro interim, na fydd y Person Cofrestredig:
- yn gallu gweithio mewn unrhyw rôl lle mae angen cofrestru â'r Cyngor;
 - yn gallu cyfeirio ato'i hun fel "Person Cofrestredig"; nac
 - yn ymddangos ar y Gofrestr fel "Person Cofrestredig".
22. Bydd hyn yn helpu i amddiffyn plant ac oedolion ifanc, lle bynnag y nodir bod risg sylweddol o ran diogelu.

Effaith ar y cyn-Berson Cofrestredig

Colli enw da proffesiynol a phersonol

23. Gall defnyddio gorchymyn atal dros dro interim gael canlyniadau difrifol. Er y gellid ystyried bod atal dros dro yn fesur brys sy'n un amddiffynnol yn hytrach na chosbol, gallai niweidio enw da proffesiynol a phersonol y person hwnnw hyd yn oed os caiff ei ddifeio yn ddiweddarach o wneud unrhyw beth o'i le. (Mae hyn yn wir er bod gorchymyn atal dros dro interim yn niwtral o ran unrhyw ganfyddiad. Hynny yw, nid yw gosod gorchymyn atal dros dro interim yn cadarnhau bod y Person Cofrestredig wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Bydd yn esgor ar ganlyniadau negyddol i'r person hwnnw ond mae'n rhaid cydbwysu hynny yn erbyn yr angen i ddiogelu dysgwyr).
24. Fodd bynnag, os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb neu os dyfernir y Person Cofrestredig yn ddieuog mewn treial, mae yr un mor debygol y bydd unrhyw niwed sydd ar ôl i'w enw da proffesiynol wedi'i achosi gan ymchwiliad yr heddlu, y treial a'r

syllw a roddwyd i'r achos yn y cyfryngau â chan y penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim.

Ystyriaethau o ran cyflogaeth

25. Pan gaiff person ei dynnu oddi ar y Gofrestr yn dilyn cyhuddiad – neu, mewn achosion eithriadol, yn dilyn ei arestio – bydd yn ofynnol i'r cyflogwr gymryd camau ar unwaith os nad yw eisoes wedi gwneud. Yr ymateb mwyaf tebygol fyddai ei atal o'i swydd dros dro. Mae'n bosibl y gallai'r person gael ei ddiswyddo ond ymddengys fod hyn yn llai tebygol ar y cam hwn. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gall y cyflogwr ystyried rhoi dyletswyddau eraill i'r person, gan olygu y gall barhau i weithio mewn swydd nad yw'n swydd addysgu. Am mai dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y byddai'r Cyngor yn ystyried defnyddio ei bwerau mewn perthynas â gorchymynion atal dros dro interim, mae'n annhebygol y byddai'r cyflogwr am i'r person barhau i weithio a chael cyswllt â dysgwyr tra byddai ymchwiliadau yn mynd rhagddynt.
26. Yn achos athro cofrestredig mewn ysgol, yn unol â thâl ac amodau athrawon ysgolion, byddai'r cyfryw person yn parhau i gael ei dalu tra bydd wedi'i atal dros dro (rheoliadau 16 a 28 o Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 ["Rheoliadau 2006"]). Ym mhob achos arall lle nad yw tâl ac amodau athrawon ysgolion yn gymwys (staff cyflenwi, cynorthwyyr addysgu, gweithwyr ieuenctid ac ati) y telerau ac amodau a drafodir â'r cyflogwr fydd yn pennu a fydd y person yn parhau i gael ei dalu yn ystod y cyfnod y mae wedi'i atal ai peidio.
27. Mae'n bosibl mai staff cyflenwi fydd yn teimlo'r effaith fwyaf, am eu bod yn hunangyflogedig ac yn aml yn dod o hyd i waith drwy asiantaeth. Felly, os caiff eu henw ei dynnu oddi ar y Gofrestr dros dro, ni fyddant yn cael incwm yn yr un ffordd â'r rhai sy'n cael eu cyflogi i weithio mewn ysgol neu leoliadau addysgol eraill. Gall hyn gael effaith ar deulu y cyn-Berson Cofrestredig hefyd.
28. Fodd bynnag, dim ond mewn achosion difrifol iawn y caiff gorchymyn atal dros dro interim ei osod, pan fydd yn angenrheidiol er budd y cyhoedd.
29. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall cyflogwyr hyd yn oed ystyried diswyddo aelod o staff. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gynnull pwyllgor disgyblu ac apeliadau staff er mwyn penderfynu a ddylid diswyddo aelod o staff addysgu'r ysgol. Mewn achosion o'r fath, byddai angen i'r corff llywodraethu gael ei fodloni bod y dystiolaeth

yn cyfiawnhau cam o'r fath. Mae gan aelod o staff yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

30. Gall pob categori o Personau Cofrestredig wneud cais am ddiswyddo annheg yn erbyn eu cyn-gyflogwr mewn Tribiwnlys Cyflogaeth. Telerau ac amodau eu cyflogaeth fydd yn pennu a fydd ganddynt hawl hefyd i wrandawriad disgyblu ac apelio a gynhelir gan eu cyflogwr.

Iechyd a Llesiant

31. Ni ellir gorbwysleisio'r effaith ar iechyd a llesiant Person Cofrestredig y mae honiadau difrifol yn cael eu gwneud yn ei erbyn – ond sy'n cael ei ddifeio'n ddiweddarach. Mae'n bosibl y bydd iechyd meddwl teuluoedd Personau Cofrestredig yn dioddef hefyd.
32. Fodd bynnag, byddai gorchymyn atal dros dro interim yn un o blith sawl mesur posibl y gellid ei roi ar waith pan fyddai honiadau difrifol iawn yn cael eu gwneud yn erbyn Person Cofrestredig, fel cael ei wahardd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu cael ei gyhuddo o drosedd ddifrifol. Yr honiadau ar gam, yn hytrach na'r gorchymyn atal dros dro interim, fyddai prif achos y gofid.

Tymor Hwyl

33. O dan gynllun Datgelu'r Heddlu o dan y Gyfraith Gyffredin (CLPD)¹ gall yr heddlu atgyfeirio honiadau difrifol am unigolion at gyrff neu sefydliadau eraill, ond dim ond pan fyddant yn credu bod risg ddifrifol ac uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd wedi'i nodi, a bod angen gweithredu ar unwaith. Felly, fel arfer, dim ond i'r partïon neu'r sefydliadau perthnasol hynny a all gymryd camau o'r fath ac, felly, liniaru'r risg hon, y rhoddir hysbysiadau.
34. Mae'r Cyngor yn pryderu bod peidio â chael pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim yn golygu na fydd yr heddlu yn ei hysbysu am bob honiad difrifol a wneir yn erbyn Personau Cofrestredig, am nad yw'n gallu gweithredu ar unwaith yn erbyn ei gofrestreion. Os caiff y Cyngor

¹Ar gael yma: <https://www.app.college.police.uk/wp-content/uploads/2016/08/NPCC-2017-Common-Law-Police-Disclosures-CLPD---Provisions-to-supersede-the-Notifiable-Occupations-Scheme-NOS.pdf>

bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, gall olygu y bydd mwy o honiadau difrifol yn erbyn Personau Cofrestredig yn cael eu hatgyfeirio at y Cyngor gan yr heddlu. Gallai hyn, yn ei dro, olygu y bydd mwy o Bersonau Cofrestredig sy'n peri risg sylweddol o ran diogelu yn cael eu hatal dros dro o'r Gofrestr, gan ddiogelu mwy o blant.

35. Fodd bynnag, nid yw'r heddlu wedi cadarnhau'n bendant y bydd rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor yn arwain at fwy o atgyfeiriadau at y Cyngor. Y rheswm dros hyn yw bod pob atgyfeiriad gan yr heddlu o dan CLPD yn cael ei drafod yn unigol.

Atal

36. Bydd rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor yn helpu i atal y Personau Cofrestredig hynny sy'n peri risg ddifrifol o ran diogelu rhag cael cyswllt â phlant a phobl ifanc yn eu cartrefi, dan gochl darparu gwasanaeth tiwtora cartref.
37. Fel yr eglurwyd uchod, gall mwy o honiadau difrifol gael eu hatgyfeirio at y Cyngor gan yr heddlu o dan y cynllun CLPD os gall y Cyngor gymryd camau ar unwaith drwy osod gorchmynion atal dros dro interim lle y bo'n briodol. Gallai hyn olygu y gall y Cyngor gymryd camau yn erbyn mwy o Bersonau Cofrestredig sy'n peri risg ddifrifol o ran diogelu, gan atal mwy o'r cyfryw Bersonau rhag cael cyswllt â phlant a phobl ifanc yn eu cartrefi. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd yr atgyfeiriadau'n cynyddu, gan y bydd yr heddlu yn ystyried a ddylid atgyfeirio honiadau difrifol fesul achos.

Integreiddio

38. Credwn fod y cynigion hyn yn cefnogi thema allweddol "*Iach ac Egniol*" o fewn "*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*"². Y rheswm dros hyn yw bod ein cynigion yn helpu i fynd i'r afael â bwlch sylweddol sy'n ymwneud â thiwtoriaid preifat, a fydd yn helpu i ddiogelu llesiant corfforol a meddyliol unigolion ifanc a'u teuluoedd.

² <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol>

39. Rydym o'r farn hefyd fod ein cynigion yn cefnogi thema allweddol "*Uchelgeisiol ac yn Dysgu*" am y byddant yn gwella uniondeb y Gofrestr gweithlu addysg. Y rheswm dros hyn yw y byddai ein cynigion yn galluogi'r Cyngor i atal dros dro o'r Gofrestr berson sy'n destun honiadau difrifol, gan atal y person hwnnw rhag defnyddio'i statws cofrestredig fel prawf o gymeriad.
40. Yn olaf, rydym o'r farn y bydd ein cynigion yn cyfrannu at un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef *Cymru Iachach: Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol*. Y rheswm dros hyn – fel yr eglurir uchod – yw y bydd ein cynigion yn helpu i ddiogelu llesiant corfforol a meddyliol unigolion ifanc a'u teuluoedd.

Cydweithio a Chymryd Rhan

41. Ein partner wrth gyflwyno'r cynigion hyn yw'r Cyngor, sydd eisoes wedi cynnal ei ymgynghoriad ei hun ar bwerau gorchmynion atal dros dro interim rhwng 21 Tachwedd a 21 Rhagfyr 2018. ³
42. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod wedi cyfarfod â'r undebau, yn unigol ac ar y cyd, i drafod y cynigion.
43. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor ar ein cynigion i roi pwerau iddo mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, a disgwyliwn lansio ymgynghoriad 12 wythnos yn yr hydref.
44. Ymgynghoriad ar-lein fydd hwn, ond bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â rhanddeiliaid yn uniongyrchol, i roi gwybod iddynt am lansiad yr ymgynghoriad a'u gwahodd i ymateb. Ymhlith y rhanddeiliaid allweddol y byddwn yn cysylltu â nhw, mae undebau addysgu ac undebau gweithlu addysg eraill, awdurdodau esgobaethol, awdurdodau lleol a chyflogwyr eraill, fel colegau addysg bellach ac asiantaethau athrawon cyflenwi.

³ Ar gael yma: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/ymgyngoriad-i-osod-gorchmynion-atal-dros-dro.html>

Costau posibl y cynnig i roi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor

45. Credir y bydd cost y broses gorchmynion atal dros dro interim yn gymharol fach, ac mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod na fydd angen iddo geisio cynyddu ffioedd. (Y ffioedd presennol a bennir yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 yw £46 y flwyddyn i bob cofrestrai. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal ar gyfer y ffi hon fel bod y swm a delir gan gofrestreion yn £45 i athrawon ysgolion, athrawon Addysg Bellach, gweithwyr ieuenctid cymwysedig ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith; a £15 y flwyddyn i weithwyr cymorth dysgu ysgolion, gweithwyr cymorth dysgu AB a gweithwyr cymorth ieuenctid).
46. Mae'r Cyngor yn disgwyl i 80-90% o achosion o orchmynion atal dros dro interim fynd rhagddynt heb ddim neu brin ddim ymgysylltiad gan y Person Cofrestredig. O'r 10-20% sy'n weddill, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y Person Cofrestredig yn ymateb i broses y gorchymyn atal dros dro interim neu'n cymryd rhan ynddi o bosibl, ond bydd llai na 5% o'r achosion yn arwain at wrandawriad gorchymyn atal dros dro interim a ymlleddir.
47. Golyga hyn na fyddai angen cynnal gwrandawriad llawn gerbron panel annibynnol yn y mwyafrif helaeth o achosion, er y byddai angen cynnull y panel o hyd a chynnal gwrandawriad byr er mwyn cadarnhau'r penderfyniad i osod y gorchymyn atal dros dro interim. Mae'r Cyngor wedi ei chael hi'n anodd meintioli union gost gwrandawiadau gorchmynion atal dros nas ymlleddir, ond mae wedi ein sicrhau y byddai'n gyfwerth ag ychydig bach o amser y staff a fyddai'n cael ei ddarparu gan y tîm presennol (h.y. ni fyddai angen unrhyw staff ychwanegol).
48. Hyd yn oed lle bydd Person Cofrestredig yn ymladd y gorchymyn atal dros dro interim ac yn gofyn am wrandawriad, yn wahanol i wrandawiadau disgyblu arferol sy'n costio £20,000 yr un, ar gyfartaledd, mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i swyddogion y byddai gwrandawiadau gorchmynion atal dros dro interim a ymlleddir ond yn costio tua £2,500. Y rheswm dros hyn yw na fyddai gwrandawiadau gorchmynion atal dros dro interim yn profi tystiolaeth tystion, a bod y gost ariannol fwyaf yn aml yn gysylltiedig â galw ar dystion i ddod i wrandawiadau disgyblu "llawn", sy'n ychwanegu at hyd y gwrandawriad.

49. Mae'r Cyngor wedi derbyn 15 o atgyfeiriadau mewn 3 blynedd⁴, sy'n cyfateb i 5 y flwyddyn ar gyfartaledd, felly pe bai llai na 5% o achosion yn cael eu hymladd yn llawn a bod nifer yr atgyfeiriadau yn aros yr un peth, byddai 1 gwrandawriad a ymleddir y flwyddyn ar y mwyaf; mewn rhai blynyddoedd efallai na fyddai unrhyw wrandawriadau a ymleddir o gwbl.
50. Byddai angen i nifer yr atgyfeiriadau gynyddu 8 gwaith i 40 y flwyddyn er mwyn cael 2 achos a ymleddir y flwyddyn. Hyd yn oed os bydd hyn yn digwydd, disgwylir i gost ddisgwyliedig gwrandawriadau gorchymyn atal dros dro interim a ymleddir gyfateb i ddim ond £5,000 y flwyddyn.
51. Ar ôl i orchymyn atal dros dro interim gael ei wneud, bydd y cyn-Berson Cofrestredig yn gallu gwneud cais i gael gwrandawriau adolygu gorchymyn atal dros dro interim o fewn 6 mis i'r dyddiad y'i gwnaed, a bob 6 mis ar ôl hynny. Amcangyfrif gorau'r Cyngor yw y bydd rhwng 1 a 2 wrandawriad adolygu y flwyddyn, a fydd yn costio'r un peth â gwrandawriad gorchymyn atal dros dro interim. Mae'n hyn yn golygu na fyddai cost gwrandawriadau adolygu yn fwy na £5,000 y flwyddyn.
52. Mae costau a buddion y cynigion hyn wedi'u hasesu'n fanylach yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn arfaethedig.

⁴ Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod y cafwyd 10 o atgyfeiriadau gan yr heddlu a 5 gan gyflogwyr.

7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad ar Ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon⁵. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad i Gyngor y Gweithlu Addysg gael pwerau i osod gorchmynion atal dros dro interim ar athrawon.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal ymgynghoriad ar yr angen i gael pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim. Mae'r ymgynghoriad sydd bellach wedi cau, gan gynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad, ar gael yma:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/ymgyngoriad-i-osod-gorchmynion-atal-dros-dro.html>

Rydym yn cynnig rhoi'r pŵer i'r Cyngor atal ei gofrestreion ("Personau Cofrestredig") o'r Gofrestr gyhoeddus dros dro, tra bydd proses ddisgyblu'r Cyngor yn cael ei chwblhau. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r bwlch diogelu sylweddol a ddisgrifir yn adran 7.2 isod ac yn galluogi'r Cyngor i atal pob categori o Personau Cofrestredig, nid dim ond athrawon.

Rydym wrthi'n ymgynghori â'r cyhoedd ar ein cynigion. Fodd bynnag, er mwyn eu cyflwyno bydd angen llunio darn arbenigol o ddeddfwriaeth sydd o ddiddordeb, yn bennaf, i Personau Cofrestredig, eu cyflogwyr a chynrychiolwyr undebau. Byddwn yn cysylltu â phob sefydliad rhanddeiliad pan gaiff yr ymgynghoriad ei lansio, er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i geisio eu barn ar ein cynigion.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r cynigion hyn i roi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim ("ISO") i'r Cyngor yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â "bwlch" diogelu; lle bydd unigolyn yn parhau i gael statws "Person Cofrestredig" â'r Cyngor tra'n aros am

⁵ Ar gael yma: <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11338/cr-ld11338-w.pdf>

ganlyniad y broses ddisgyblu, er bod honiadau difrifol iawn wedi'u gwneud yn ei erbyn.

Gall parhau i fod yn "Berson Cofrestredig" dan yr amgylchiadau hyn fod yn risg sylweddol o ran diogelu. Pe bai rhiant yn chwilio'r Gofrestr, mae'n debygol y byddai'n cael sicrwydd bod unigolyn yn addas i fod yn diwtor preifat oherwydd ei statws fel "Person Cofrestredig".

Ond, pe bai gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, gallai dynnu enw'r unigolyn hwnnw oddi ar y Gofrestr dros dro tra'n aros am ganlyniad ymchwiliadau gan yr heddlu a'i broses ymchwilio a disgyblu ei hun.

Byddai'r cynigion hyn yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar y plant hynny a fyddai'n cael eu hamddiffyn drwy fynd i'r afael â'r "bwlch" hwn. Gall fod effaith gadarnhaol ar lesiant eu teuluoedd hefyd.

Byddai'r cynigion hyn yn cael yr effaith negyddol fwyaf ar y Personau Cofrestredig hynny y gosodir gorchymyn atal dros dro interim arnynt. At hynny, gall fod effaith negyddol gysylltiedig ar lesiant eu teuluoedd.

Cynhaliwyd asesiadau effaith llawn ar y pynciau canlynol, a chânt eu crynhoi isod:

Hawliau Plant

Bydd rhoi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor yn cefnogi'r erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Rydym o'r farn bod ein cynigion yn cefnogi erthygl 3, gan y bydd rhoi pŵer i'r Cyngor wneud gorchmynion atal dros dro interim lle y bo'n briodol yn galluogi'r Cyngor i "weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn" drwy ei amddiffyn rhag risg sylweddol o ran diogelu.

Erthygl 34

Dylai'r Llywodraeth ddiogelu plant rhag camdriniaeth rywiol.

Rydym o'r farn y bydd y cynigion hyn – a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru – yn helpu i ddiogelu plant rhag camdriniaeth rywiol. Y rheswm dros hyn yw mai eu heffaith ddisgwyliedig yw atal Personau Cofrestredig sy'n peri risg sylweddol i blant rhag defnyddio eu statws "cofrestrredig" gyda'r Cyngor i gael cyswllt â phlant a phobl ifanc dan ochl tiwtora yn y cartref.

Cydraddoldeb

Mae'r cynigion hyn yn cael eu cyflwyno er mwyn helpu i ddiogelu plant, ac mae disgwyl iddynt ddiogelu pob plentyn (a theulu pob plentyn). Maent yn gymwys yn yr un ffordd i bob person o fewn grwpiau nodweddion gwarchoddedig.

Disgwyliwn i'r cynigion hyn gael yr un effaith andwyol ar unrhyw Person Cofrestredig (a'i deulu) y mae gorchymyn atal dros dro interim wedi'i osod arno, p'un a yw'n perthyn i grŵp gwarchoddedig ai peidio.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod y mesurau cywir ar waith er mwyn sicrhau na fydd y rhai sydd am i'r Cyngor ohebu â nhw yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n dilyn y prosesau hyn drwy gyfrwng y Saesneg.

Preifatrwydd

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn prosesu unrhyw ddata personol y bydd eu hangen er mwyn rhoi'r cynigion hyn ar waith; caiff hyn ei wneud gan y Cyngor. Fodd bynnag, gan fod angen i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar ffurf y Gorchymyn arfaethedig er mwyn galluogi'r Cyngor i brosesu'r data personol hyn, mae'r cynigion hyn yn dod o dan gwmpas y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR").

Mae Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni ei chyfrifoldebau o dan GDPR.

Bioamrywiaeth

Rydym wedi ystyried yn ofalus effaith lawn ein cynigion ar fioamrywiaeth mewn cysylltiad â'r meysydd canlynol:

- Caffael

- Rheoli adeiladau
- Y potensial ar gyfer codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant
- Y potensial i gefnogi cymunedau a phartneriaethau
- Dylanwadu ar eraill y byddwn yn eu hariannu e.e. ymgynghorwyr, contractwyr, cynlluniau grantiau

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng ein cynigion i ddeddfu i roi pwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim i'r Cyngor ac unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i fonitro'r defnydd o bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim ar ôl dyddiad dod i rym Gorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021, a lle bydd unrhyw effeithiau annisgwyl ar fioamrywiaeth.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y Ddeddf weithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. Llywodraeth Cymru yw un o'r cyrrff hynny.

Rydym o'r farn bod y cynigion hyn yn cefnogi nod llesiant "Cymru Iachach", a thema allweddol "Iach ac Egniol" o fewn "*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*"⁶. Y rheswm dros hyn yw eu bod yn mynd i'r afael â bwlb sylweddol o ran diogelu sy'n ymwneud â thiworiaid preifat, a fydd yn helpu i sicrhau'r iechyd a llesiant gorau i unigolion ifanc a'u teuluoedd.

Rydym o'r farn hefyd fod ein cynigion yn cefnogi nod llesiant "Cymru Ffyniannus", a thema allweddol "Uchelgeisiol ac yn Dysgu" yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth*

⁶ Ar gael yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf>

genedlaethol. Y rheswm dros hyn yw ein bod o'r farn y bydd ein cynigion yn cefnogi uniondeb Cofrestr y gweithlu addysg, gan gyfrannu at boblogaeth fedrus, addysgiedig.

- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Yn anffodus, nid oes modd i ni liniaru effeithiau negyddol posibl ataliad dros dro ar Personau Cofrestredig a'u teuluoedd.

Am y rheswm hwn, dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y caiff ataliad dros dro ei ystyried, pan fydd yr honiadau a wneir yn erbyn Person Cofrestredig yn codi pryderon sylweddol o ran diogelu, a bod y Cyngor o'r farn bod ataliad dros dro er budd y cyhoedd.

Mewn unrhyw achos, mae'n bosibl y byddai Personau Cofrestredig a'u teuluoedd yn dal i deimlo'r effeithiau negyddol rydym wedi'u nodi, hyd yn oed pe na châi ataliad dros dro ei osod.

Os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu nad oes unrhyw achos i'w ateb neu os dyfernir y Person Cofrestredig yn ddiuog mewn treial, mae yr un mor debygol y bydd unrhyw niwed sydd ar ôl i'w enw da proffesiynol neu bersonol wedi'i achosi gan ymchwiliad yr heddlu, y treial a'r sylw a roddwyd i'r achos yn y cyfryngau â chan y penderfyniad i osod gorchymyn atal dros dro interim.

Hefyd, o ystyried mai dim ond mewn ymateb i'r honiadau mwyaf difrifol y byddai gorchymyn atal dros dro interim yn cael ei osod, mae'n debygol y byddai unrhyw effaith ar statws cyflogaeth (er enghraifft, ataliad gan gyflogwr y Person Cofrestredig) wedi digwydd beth bynnag pan fyddai'r cyflogwr wedi clywed am yr honiadau. Mae hefyd yn debygol y byddai'r Person yn cael ei roi ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac felly na fyddai'n gallu parhau â'i gyflogaeth arferol tan fod canlyniad unrhyw ymchwiliad a phroses ddisgyblu a/neu droseddol yn hysbys.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynigion hyn ac y cânt eu datblygu, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i fonitro'r defnydd o bwerau mewn perthynas â gorchymynion atal dros dro interim ar ôl dyddiad dod i

rym Gorchymyn arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021.

Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso'r defnydd o bwerau mewn perthynas â gorchmynion atal dros dro interim, ac ystyried a fydd unrhyw effeithiau annisgwyl.

Datganiad

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / y Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad:

Y Cynigion

Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") yw'r rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru ar gyfer athrawon ysgolion a staff cymorth dysgu mewn ysgolion, athrawon addysg bellach, gweithwyr ieuencid cymwysedig, ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach a gweithwyr cymorth ieuencid. Oherwydd adran 9 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal cofrestr sy'n cynnwys manylion pob cofrestrai yn y categorïau a nodir uchod. Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

Rydym yn cynnig rhoi'r pŵer i'r Cyngor atal cofrestrai o'r gofrestr gyhoeddus dros dro, tra'n aros am ganlyniad ymchwiliad a chanlyniad proses ddisgyblu'r Cyngor. Gan fod yn rhaid bod y Cyngor o'r farn bod yr ataliad dros dro er budd y cyhoedd, dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y byddai'n cael ei ystyried.

Strategaeth y Gymraeg

Os bydd yr ymateb i'r cynigion hyn yn yr ymgynghoriad yn gadarnhaol a bod y cynigion yn cael eu rhoi ar waith, y Cyngor fydd yn gyfrifol am osod gorchmynion atal dros dro interim ar ei gofrestreion.

Mae strategaeth y Gymraeg wedi bod ar waith yn y Cyngor ers ei sefydlu yn 2015, ac mae wedi'i gynnwys yng nghategori 4 Safonau'r Gymraeg. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, a hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg, cyflwynodd y Cyngor safonau'r Gymraeg ar gyfer y categori hwn ar 1 Ebrill 2017.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn cydymffurfio â 148 o safonau'r Gymraeg yn cwmpasu meysydd cyflenwi gwasanaethau, gweithredu, llunio polisïau, cadw cofnodion a hybu.⁷

Nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn effeithio ar gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg, nac y bydd unrhyw effeithiau negyddol eraill ar y Gymraeg o ganlyniad iddynt. Nid ydym o'r farn ychwaith y gallai ein cynigion gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

⁷ Daeth y ffigur hwn o adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg y Cyngor ar gyfer 2017-18, sydd ar gael yma: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/component/k2/item/72-adroddiad-monitro-safonau-r-gymraeg.html>

Byddwn yn cadarnhau a ydym yn iawn i gredu na fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg fel rhan o'n hymgyngoriad ar y cynigion.

Nid ydym o'r farn ychwaith y bydd unrhyw effaith – gadarnhaol na negyddol – ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, addysg cyfrwng Cymraeg na mynediad at wasanaethau yn Gymraeg.

Disgwylir i'r cynigion hyn ddiogelu plant a'u teuluoedd. Disgwylir i'r effaith ar y personau a gaiff eu diogelu – ac ar yr unigolion a gaiff eu hatal dros dro o'r gofrestr gyhoeddus – fod yr un peth ni waeth a yw'r unigolion hynny yn byw mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn defnyddio neu'n addysgu mewn addysg cyfrwng Cymraeg, neu angen defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg ai peidio.

Crynodeb

Mae'r ffaith bod y Cyngor yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg yn rhoi sicrwydd i ni fod y mesurau cywir ar waith er mwyn sicrhau na fydd y rhai sydd am gael eu gwasanaethu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n dilyn y prosesau hyn drwy gyfrwng y Saesneg.